Cyllid & Tollau EM

# Taflen wybodaeth anabledd

# Sut i fod yn gymwys ar gyfer elfen anabledd credydau treth

## Credyd Treth Gwaith

I fod yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith, mae'n rhaid i chi fodloni pob un o'r 3 amod isod.

### Amod 1

Rydych fel arfer yn gweithio am 16 awr neu fwy yr wythnos.

### Amod 2

Mae gennych anabledd a allai cyfyngu ar y math o swydd y gallwch ei wneud ac ar yr oriau y gallwch eu gweithio. Cewch fanylion am yr anableddau sy'n bodloni'r amod hwn ar dudalennau 1 a 2.

Maent yn ymwneud ag ystod eang o bethau, er enghraifft:

- anabledd corfforol
- nam ar y golwg
- nam ar y clyw
- anabledd arall
- salwch neu ddamwain

### Amod 3

Ar hyn o bryd rydych yn cael, neu buoch yn cael, budd-dal cymwys mewn perthynas â salwch neu anabledd. Mae angen i chi fodloni un o' r amodau budd-daliadau cymwys a ddangosir ar dudalennau 3 i 5 er mwyn bod yn gymwys ar gyfer amod 3.

## Amod 2: Mae gennych anabledd a allai cyfyngu ar y math o swydd y gallwch ei wneud ac ar yr oriau y gallwch eu gweithio

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am enw rhywun sy'n gysylltiedig â'ch gofal, megis therapydd galwedigaethol, nyrs gymunedol, nyrs ardal neu feddyg, a all gadarnhau sut y mae'ch anabledd yn effeithio arnoch.

Mae'n rhaid i o leiaf un o'r disgrifiadau canlynol fod yn berthnasol i chi.

### Anabledd corfforol

1. Wrth sefyll, ni allwch gadw'ch cydbwysedd oni bai eich bod yn dal eich gafael ar rywbeth drwy'r amser.
2. Ni allwch gerdded am bellter di-dor o 100 metr ar hyd tir gwastad heb stopio neu deimlo poen ddifrifol - mae hyn yn wir hyd yn oed pan fyddwch yn defnyddio'ch cymorth cerdded arferol, fel ffyn baglau, ffrâm gerdded, ffon gerdded, prosthesis neu rywbeth tebyg.

## Llinell Gymorth

08:30 - 17:00
Dydd Llun - Dydd Gwener

### Ffôn

0300 200 1900

### Ffôn testun

Relay UK (os na allwch glywed na siarad dros y ffôn) 18001 ac yna 0300 300 3900

## Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae 'Siarter CThEM' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM am ragor o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Grŵp Gwasanaeth i Gwsmeriaid CThEM
Hydref 2022 © Hawlfraint y Goron 2022.

## Anabledd corfforol parhad

3. Ni allwch ddefnyddio'ch dwylo y tu ôl i'ch cefn, fel pe baech yn rhoi siaced ymlaen neu'n twcio crys i mewn i drywsus.
4. Rydych yn ei chael hi'n anodd ymestyn y naill fraich neu'r llall o'ch blaen, fel petaech yn ysgwyd llaw â rhywun.
5. Rydych yn ei chael hi'n anodd codi'r naill law neu'r llall, fel petaech yn rhoi het ar eich pen.
6. Oherwydd eich bod yn cael anhawster wrth ddefnyddio'ch dwylo, ni allwch, ag un llaw, godi darn arian sy'n 2.5 centimedr neu lai mewn diamedr, er enghraifft, darn arian 10 ceiniog.
7. Rydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio'ch dwylo neu'ch breichiau i godi jwg lawn sy'n dal un litr ac arllwys ohono i mewn i gwpan.
8. Ni allwch droi'r naill law na'r llall 180 gradd i'r ochr.

## Nam ar y golwg

1. Mae offthalmolegydd ymgynghorol wedi ardystio bod gennych nam difrifol ar eich golwg, neu'ch bod yn ddall.
2. Ni allwch ddarllen print pwynt 16 sydd dros 20 centimetr oddi wrthych, hyd yn oed os ydych yn gwisgo eich sbectol arferol.

Print pwynt 16 yw hwn. A allwch ddarllen hwn pan fyddwch dros 20 centimetr oddi wrtho?

## Nam ar y clyw

1. Ni allwch glywed ffôn yn canu pan fyddwch yn yr un ystafell â'r ffôn, hyd yn oed os ydych yn defnyddio'ch cymorth clyw arferol.
2. Rydych yn cael anhawster clywed beth mae rhywun sydd 2 fetr oddi wrthych yn ei ddweud, hyd yn oed os yw'n siarad yn uchel mewn ystafell dawel, a'ch bod yn defnyddio'ch cymorth clyw arferol.

## Anabledd arall

1. Rydych yn cael triniaeth reolaidd ar gyfer salwch meddwl, dan ofal person sydd â chymwysterau meddygol.
2. Oherwydd anabledd meddyliol, rydych yn aml yn ddryslyd neu'n anghofus.
3. Ni allwch wneud symiau adio na thynnu syml.
4. O ganlyniad i anabledd meddyliol, rydych yn taro pobl neu'n difrodi eiddo neu'n methu ffurfio perthnasau cymdeithasol normal ag eraill.
5. Mae pobl sy'n eich adnabod yn dda yn cael anhawster deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud.
6. Pan mae person yr ydych yn ei adnabod yn dda yn siarad â chi, rydych yn cael anhawster deall beth y mae'r person hwnnw'n ei ddweud.
7. O leiaf unwaith y flwyddyn yn ystod oriau effro, rydych mewn coma neu'n cael ffit sy'n peri i chi golli ymwybyddiaeth.
8. Ni allwch, fel arfer, gwblhau diwrnod gwaith 8 awr, neu wythnos waith 5 diwrnod, oherwydd cyflwr meddygol neu boen ddybryd ysbeidiol neu barhaol.

## Salwch neu ddamwain

O ganlyniad i salwch neu ddamwain, rydych yng nghanol cyfnod o orffwys neu adfer. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych wedi bod yn cael elfen anabledd Credyd Treth Gwaith yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.

## Amod 3: Amodau budd-daliadau cymwys

Byddwch yn bodloni'r amod hwn os ydych yn cael, neu os buoch yn cael, un o'r budd-daliadau salwch neu'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd canlynol ar y gyfradd benodedig, a'ch bod yn gallu bodloni'r amodau cymhwyso.

### Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) sy'n ymwneud ag incwm

Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod wedi bod yn cael:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Dâl Salwch Statudol am o leiaf un o'r 182 o ddiwrnodau cyn i chi hawlio'r elfen anabledd, a bod yr hawl wedi bodoli am gyfnod o 28 wythnos yn union cyn y diwrnod hwnnw (gweler Nodyn 1 ar dudalen 6)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth am gyfnod o 140 o ddiwrnodau cymwys, gyda'r diwrnod olaf ddim mwy na 56 diwrnod cyn i chi hawlio'r elfen anabledd (gweler Nodyn 2 ar dudalen 6) a phan fo'r canlynol yn berthnasol:
  - mae'ch anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes
  - mae'ch enillion gros o leiaf 20% yn is nag yr oeddent cyn i'r anabledd gychwyn, gydag o leiaf £15 (gros) yr wythnos o ostyngiad

### Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ar sail cyfraniadau

Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod wedi bod:

- yn hyfforddi ar gyfer y gwaith am o leiaf un o'r 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol am 28 wythnos o fewn y 56 diwrnod cyn eich diwrnod cyntaf o hyfforddiant ar gyfer y gwaith (gweler Nodyn 1 ar dudalen 6)

### Budd-dal Tai

Rydych yn cael Budd-dal Tai, sy'n cynnwys Premiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr, oherwydd eich anabledd eich hun. Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod wedi cael y budd-dal hwn am o leiaf un o'r 182 o ddiwrnodau cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith.

### Budd-dal Analluogrwydd

Cewch Fudd-dal Analluogrwydd byrdymor ar y gyfradd is. Byddwch yn bodloni'r amod hwn os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi bod yn cael y budd-dal hwn am 140 o ddiwrnodau neu fwy, gyda'r diwrnod olaf ddim mwy na 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith (gweler Nodyn 2 ar dudalen 6)
- mae'ch anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes
- mae'ch enillion gros o leiaf 20% yn is nag yr oeddent cyn i'r anabledd gychwyn, gydag o leiaf £15 (gros) yr wythnos o ostyngiad

Rydych yn cael Budd-dal Analluogrwydd byrdymor neu hirdymor ar y gyfradd uwch. Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod wedi bod:

- yn cael y budd-dal hwn am o leiaf un o'r 182 o ddiwrnodau cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- yn cael hyfforddiant ar gyfer y gwaith am o leiaf un o'r 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith, ac mae'n rhaid i chi fod wedi cael y budd-dal hwn o fewn y 56 diwrnod cyn diwrnod cyntaf y cyfnod hwnnw o gael hyfforddiant ar gyfer y gwaith

## Amod 3: Amodau budd-daliadau cymwys parhad

### Cymhorthdal Incwm

Rydych yn cael Cymhorthdal Incwm, sy'n cynnwys Premiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr, oherwydd eich anabledd eich hun. Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod wedi bod yn cael y budd-dal hwn am o leiaf un o'r 182 o ddiwrnodau cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith.

Rydych yn cael Cymhorthdal Incwm oherwydd analluogrwydd i weithio. Byddwch yn bodloni'r amod hwn os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi bod yn cael Cymhorthdal Incwm am 140 o ddiwrnodau cymwys, gyda'r diwrnod olaf yn syrthio o fewn y 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith (gweler Nodyn 2 ar dudalen 6)
- mae'ch anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes
- mae'ch enillion gros o leiaf 20% yn is nag yr oeddent cyn i'r anabledd gychwyn, gydag o leiaf £15 (gros) yr wythnos o ostyngiad

### Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm

Rydych yn cael Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, sy'n cynnwys Premiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr. Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod yn cael y budd-dal hwn am o leiaf un o'r 182 o ddiwrnodau cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith.

### Credydau Yswiriant Gwladol

Rydych yn cael y credydau hyn ar sail gallu cyfyngedig i weithio neu ar sail analluogrwydd i weithio. Byddwch yn bodloni'r amod hwn os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi bod yn cael y credydau hyn am gyfnod o 20 wythnos, a gwnaeth yr olaf o'r rheiny syrthio o fewn y 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith (gweler Nodyn 2 ar dudalen 6)
- mae'ch anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes
- mae'ch enillion gros o leiaf 20% yn is nag yr oeddent cyn i'r anabledd gychwyn, gydag o leiaf £15 (gros) yr wythnos o ostyngiad

Rydych yn cael y credydau hyn oherwydd bod credyd 'gallu cyfyngedig i weithio' wedi'i ddyfarnu i chi, gan fod eich hawl 12 mis i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau wedi dod i ben. Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod wedi bod naill ai:

- yn cael y credydau hyn am o leiaf un o'r 182 o ddiwrnodau cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- yn cael hyfforddiant ar gyfer y gwaith am o leiaf un o'r 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith, ac mae'n rhaid i chi fod wedi cael y credydau hyn o fewn y 56 diwrnod cyn diwrnod cyntaf y cyfnod hwnnw o hyfforddiant ar gyfer y gwaith

### Tâl Salwch Galwedigaethol

Byddwch yn bodloni'r amod hwn os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi bod yn cael y budd-dal hwn am 140 o ddiwrnodau neu fwy, gyda'r diwrnod olaf ddim mwy na 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith (gweler Nodyn 2 ar dudalen 6)
- mae'ch anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes
- mae'ch enillion gros o leiaf 20% yn is nag yr oeddent cyn i'r anabledd gychwyn, gydag o leiaf £15 (gros) yr wythnos o ostyngiad

## Amod 3: Amodau budd-daliadau cymwys parhad

### Lwfans Anabledd Difrifol

Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i chi fod wedi bod naill ai:

- yn cael y budd-dal hwn am o leiaf un o'r 182 o ddiwrnodau cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- yn cael hyfforddiant ar gyfer y gwaith am o leiaf un o'r 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith, ac mae'n rhaid i chi fod wedi cael Lwfans Anabledd Difrifol o fewn y 56 diwrnod cyn diwrnod cyntaf y cyfnod hwnnw o hyfforddiant ar gyfer y gwaith

### Tâl Salwch Statudol (SSP)

Er mwyn bodloni'r amod hwn, mae'n rhaid i'r naill neu'r llall o'r canlynol fod yn berthnasol:

- rydych wedi bod yn cael y budd-dal hwn am 140 o ddiwrnodau neu fwy, gyda'r diwrnod olaf ddim mwy na 56 diwrnod cyn i chi hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith (gweler Nodyn 2 ar dudalen 6), ac mae'r canlynol yn gymwys:
  - mae'ch anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes
  - mae'ch enillion gros o leiaf 20% yn is nag yr oeddent cyn i'r anabledd gychwyn, gydag o leiaf £15 (gros) yr wythnos o ostyngiad
- rydych wedi bod yn cael Tâl Salwch Statudol wedi'i ddilyn gan Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu fwy, ac mae'n rhaid i chi fod wedi bod yn cael hyfforddiant ar gyfer y gwaith am o leiaf un diwrnod yn ystod y 56 diwrnod cyn i chi hawlio'r elfen anabledd

### Credyd Treth Gwaith

Rydych yn gymwys os bu gennych hawl i elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith yn ystod y 56 diwrnod cyn eich hawliad am yr elfen anabledd, drwy fodloni'r amodau cymhwyso dan un o'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd a restrir ar dudalennau 3 i 5, neu drwy gael Credyd Treth i Bobl Anabl, ar adeg gynharach.

Mae'r cyfnod 'adeg gynharach' yn gallu caniatáu hawl barhaus i'r elfen anabledd ymhell ar ôl i'r budd-dal cymwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd stopio cael ei dalu.

> Os byddwch yn cael budd-dal anabledd yn dilyn adolygiad neu apêl, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith.
>
> Dylech roi gwybod am y newid hwn o fewn 1 mis i ddyddiad yr adolygiad neu benderfyniad yr apêl i sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o gredydau treth.
>
> Mae'n bosibl bod gennych hawl hyd yn oed os yw eich dyfarniad credydau treth wedi dod i ben.

### Buddiannau eraill

Rydych yn bodloni'r amod cymhwyso os ydych ar hyn o bryd yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:

- Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn
- Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant/Taliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion/Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol gyda lwfans gweini cyson
- Pensiwn Rhyfel gydag atodiad symudedd neu lwfans gweini cyson
- Cynllun Cerbyd ar gyfer Anabledd, ac mae gennych gerbyd ar gyfer anabledd neu gerbyd arall a ddarperir o dan y Cynllun Cerbyd ar gyfer Anabledd

## Nodiadau

### Nodyn 1

Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch ychwanegu at ei gilydd unrhyw gyfnodau pan gawsoch:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credyd 'gallu cyfyngedig i weithio'
- Tâl Salwch Statudol (SSP)
- Budd-dal Analluogrwydd (ar gyfradd fyrdymor neu hirdymor)
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Cymhorthdal Incwm, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr
- Tâl Salwch Statudol, ar yr amod nad oeddent yn fwy nag 8 wythnos ar wahân
- Tâl Salwch Statudol, gyda chyfnodau pan gawsoch
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau
  - Credyd 'gallu cyfyngedig i weithio'
  - Budd-dal Analluogrwydd (ar gyfradd fyrdymor neu hirdymor)
  - Lwfans Anabledd Difrifol

ar yr amod nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân a gwnaethant fodloni'r amodau ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau ar y diwrnodau y cawsoch Dâl Salwch Statudol.

### Nodyn 2

Does dim rhaid i'r 140 o ddiwrnodau (20 wythnos) fod yn un cyfnod di-dor. Gall fod yn gyfuniad o gyfnodau pan oeddech/ydych yn cael:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Tâl Salwch Statudol
- Tâl Salwch Galwedigaethol
- Budd-dal Analluogrwydd (ar gyfradd fyrdymor neu hirdymor)
- Cymhorthdal Incwm a delir oherwydd analluogrwydd i weithio

sydd lai nag 8 wythnos ar wahân. Gellir cysylltu'r cyfnodau hyn â'i gilydd i fodloni'r amod 140 o ddiwrnodau (20 wythnos).

## Elfen anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith

Rydych yn gymwys i gael yr elfen anabledd difrifol os ydych chi neu'ch partner (os ydych yn hawlio fel cwpl) yn cael:

- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)/Taliad Anabledd Plant (CDP) (elfen gofal cyfradd uchaf)
- yr elfen bywyd bob dydd ychwanegol o'r Taliad Annibyniaeth Personol / Taliad Anabledd Oedolion
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn (y gyfradd uwch)

Does dim rhaid i chi fod yn gweithio i fod yn gymwys ar gyfer yr elfen anabledd difrifol, cyn belled â bod eich partner yn gweithio. Os yw'r ddau ohonoch yn gymwys, cewch 2 elfen anabledd difrifol.

## Credyd Treth Plant

Mae elfen anabledd y Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn anabl neu blentyn sydd ag anabledd difrifol neu berson ifanc cymwys.

Gallech gael elfen plentyn anabl ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc cymwys yr ydych yn gyfrifol amdano os bodlonir un o'r amodau canlynol:

- mae'r Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant neu Daliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion yn cael ei dalu ar ei gyfer (neu byddai'n daladwy, ond mae'r plentyn neu'r person ifanc yn yr ysbyty)
- ardystiwyd bod gan y plentyn neu'r person ifanc cymwys nam difrifol ar ei olwg, neu ei fod yn ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol
- mae'r plentyn neu'r person ifanc cymwys wedi peidio â bod wedi'i ardystio fel rhywun â nam difrifol ar ei olwg neu rywun dall gan offthalmolegydd ymgynghorol yn y 28 wythnos cyn dyddiad yr hawliad neu adnewyddiad

Mae'n bosibl y cewch yr elfen plentyn anabl wedi'i thalu ar gyfradd uwch ar gyfer plentyn sydd ag anabledd difrifol neu berson ifanc cymwys yr ydych yn gyfrifol amdano, os yw unrhyw un o'r canlynol yn cael ei dalu ar ei gyfer:

- elfen gofal cyfradd uchaf y Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant (neu byddai'n daladwy, ond mae'r budd-dal wedi'i atal neu mae'r plentyn neu'r person ifanc cymwys yn yr ysbyty)
- yr elfen bywyd bob dydd ychwanegol o'r Taliad Annibyniaeth Personol/ Taliad Anabledd Oedolion (neu byddai'n daladwy, ond mae'r plentyn neu'r person ifanc cymwys yn yr ysbyty)
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

Os bydd eich plentyn neu berson ifanc yn cael budd-dal anabledd yn dilyn adolygiad neu apêl, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith. Dylech roi gwybod am y newid hwn o fewn 1 mis i ddyddiad yr adolygiad neu benderfyniad yr apêl i sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o gredydau treth.

Os bydd eich plentyn neu berson ifanc yn cael budd-dal anabledd yn dilyn adolygiad neu apêl, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith.

Dylech roi gwybod am y newid hwn o fewn 1 mis i ddyddiad yr adolygiad neu benderfyniad yr apêl i sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o gredydau treth.

Mae'n bosibl bod gennych hawl hyd yn oed os yw eich dyfarniad credydau treth wedi dod i ben.